CEMEG

Ar ôl graddio mewn Cemeg, fel arfer byddwch yn gallu:

- Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, egwyddorion, damcaniaeth a ffeithiau hanfodol sy'n ymwneud â chemeg.
- Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r fath i ddatrys problemau ansoddol a meintiol o natur gyfarwydd ac anghyfarwydd.
- Adnabod a dadansoddi problemau newydd a chynllunio strategaethau ar gyfer eu datrys.
- Gwerthuso, dehongli a syntheseiddio gwybodaeth a data cemegol.
- Adnabod a gweithredu gwyddor ac arfer mesur da.
- Cyflwyno deunydd a dadleuon gwyddonol yn glir ac yn gywir, yn ysgrifenedig ac ar lafar, i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
- Defnyddio sgiliau cyfrifiadol a phrosesu data sy'n ymwneud â chemeg.
- Trin deunyddiau cemegol yn ddiogel, gan ystyried eu priodweddau ffisegol a chemegol, gan gynnwys unrhyw beryglon penodol sy'n gysylltiedig â'u defnyddio.
- Cynnal gweithdrefnau labordy safonol mewn gwaith synthetig a dadansoddol, mewn perthynas â systemau anorganig ac organig.
- Monitro a chofnodi priodweddau, digwyddiadau neu newidiadau cemegol yn systematig.
- Cynllunio, dylunio a chynnal ymchwiliadau ymarferol, o'r cam cyntaf o adnabod problem i werthuso ac arfarnu canlyniadau a chanfyddiadau; gan gynnwys y gallu i ddewis technegau a gweithdrefnau priodol.
- Defnyddio'r offer cemegol safonol a ddefnyddir ar gyfer ymchwilio a gwahanu strwythurol.
- Dehongli data a gesglir o arsylwadau a mesuriadau labordy.
- Cynnal asesiadau risg ar y defnydd o sylweddau cemegol a gweithdrefnau labordy.
- Defnyddio sgiliau datrys problemau sy'n ymwneud â gwybodaeth ansoddol a meintiol, gan gynnwys gwerthusiadau ar sail gwybodaeth gyfyngedig.
- Defnyddio sgiliau rhifedd a chyfrifiadol, gan gynnwys dadansoddi camgymeriadau, amcangyfrifon trefn-maint, defnyddio unedau a dulliau cyflwyno data'n gywir.
- Defnyddio sgiliau adfer gwybodaeth drwy chwiliadau cyfrifiadur ar-lein.
- Defnyddio sgiliau TG fel prosesu geiriau a defnyddio taenlenni, cofnodi a storio data a chyfathrebu rhyngrwyd.
- Ymarfer sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar ynghyd â sgiliau rhyngbersonol a gweithio fel tîm.
- Defnyddio sgiliau trefnu a rheoli amser.

Cipolwg ar Gemeg

Gall cyrsiau israddedig gwmpasu terminoleg gemegol, adwaith cemegol, dadansoddi cemegol, gwahanol gyflyrau sylwedd, mecaneg gwantwm, thermodynameg, cineteg newid cemegol, ymchwiliadau strwythurol, priodweddau elfennau a'u cyfansoddion, cemeg organig a'r berthynas rhwng priodweddau swmp, atomau a moleciwlau (gan gynnwys macromoleciwlau). Y bwriad sylfaenol yw meithrin brwdfrydedd tuag at gemeg, sut y gellir ei ddefnyddio mewn cyd-destunau gwahanol, i roi sylfaen i fyfyrwyr mewn gwybodaeth gemegol a sgiliau ymarferol, ac i ddatblygu mewn myfyrwyr amrywiaeth o sgiliau gwerthfawr y gellir eu trosglwyddo i nifer o wahanol feysydd byd gwaith.

Sources: